# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Mawrth 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 327(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel y Gweinidog Pontio Ewropeaidd)

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

(30 munud)

**NDM7576** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, a osodwyd gerbron y Senedd ar 27 Ionawr 2021, yn cael eu dirymu.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 – Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant

(30 munud)

**NDM7610** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 – Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2020.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2021.

## 7 Dadl ar ddeisebau ynghylch rhaglen frechu COVID-19

(30 munud)

**NDM7608** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynglŷn â'r rhaglen frechiadau COVID-19:

a) Deiseb ‘P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth’ a gasglodd 10,879 o lofnodion;

b) Deiseb ‘P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19’ a gasglodd 16,288 o lofnodion.

**P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth**

**P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19'**

## 8 Dadl ar ddeisebau ynghylch datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre

(30 munud)

**NDM7609 Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynghylch datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre:

a) Deiseb ‘P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig’ a gasglodd 5,348 o lofnodion;

b) Deiseb ‘P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol’ a gasglodd 11,392 o lofnodion.

**P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig**

**P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol**

## 9 Dadl y Grwp Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio - Buddsoddiad mewn ysgolion.

(30 munud)

**NDM7606** [Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod y diffyg buddsoddi mewn seilwaith ysgolion dros y degawdau diwethaf wedi golygu nad yw llawer o ysgolion yn addas at y diben.

2. Yn croesawu buddsoddiadau diweddar fel Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond yn gresynu at y ffaith bod awdurdodau lleol yn eu defnyddio fel cyfrwng i uno ysgolion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi terfyn ar greu ysgolion mawr iawn sy'n niweidiol i brofiad dysgu pobl ifanc;

b) sicrhau nad yw awdurdodau addysg lleol yn defnyddio diffyg buddsoddiad fel esgus i gau ysgolion cymunedol; a

c) cyhoeddi canllawiau i awdurdodau addysg lleol i sicrhau nad oes rhaid i ddisgyblion ysgol deithio mwy na 15 munud mewn car neu ar gludiant cyhoeddus i fynychu eu hysgol agosaf.

**Cyflwynwyd y gwelliannu a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cyfle i ddysgu yn yr amgylcheddau dysgu gorau.

2. Yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio lleoedd ysgol ac am ddewis model dysgu priodol ar gyfer ardal benodol.

3. Yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth wneud newidiadau mawr i ysgolion, gan gynnwys cau ysgolion, gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac ystyried ystod o ffactorau – yn bennaf oll, buddiannau dysgwyr.

4. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru:

a) wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn ystâd ysgolion a cholegau, ac yn parhau i wneud hynny drwy ei Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif;

b) am fuddsoddi mwy na £300 miliwn yn ein hysgolion a'n colegau eleni; y gwariant blynyddol uchaf ers cychwyn y rhaglen;

c) yn craffu ar y buddsoddiad yn y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif i sicrhau bod dulliau teithio llesol yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth newydd; a

d) yn adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sy'n pennu'r amodau ar gyfer awdurdodau lleol o ran y gofyniad i ddarparu dull teithio i ddysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol, i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben.

Cod trefniadaeth ysgolion

Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain ganrif

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Mark Isherwood (Gogledd Cymru

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi terfyn ar danariannu disgyblion yng Nghymru;

b) darparu cyllid teg i awdurdodau lleol i ddiogelu ysgolion gwledig;

c) cyflwyno prosiectau yng ngham B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif i ddechrau ailadeiladu Cymru;

d) sicrhau bod pob ysgol newydd yn cael ei chynllunio mewn ffordd sy'n ymwybodol o anabledd;

e) gwrthsefyll creu ysgolion mawr iawn a sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn cael ei chau yn erbyn dymuniadau'r gymuned;

f) sicrhau na all awdurdodau addysg lleol ddefnyddio diffyg buddsoddiad fel esgus i gau ysgolion lleol; a

g) cynnal archwiliad ledled Cymru o gyflwr yr ystâd bresennol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7607** Nick Ramsay (Mynwy)

Addasu tai Cymru nawr ar gyfer pobol sydd yn byw gyda Clefyd Motor Niwron: sut allwn ni wneud yn sicr fod pobl sydd yn byw gyda MND yn cael cartrefi diogel a hygyrch, gan gadw eu annibyniaeth, urddas ag ansawdd bywyd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 24/02/2021 i'w hateb ar 03/03/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI, TRAFNIDIAETH A GOGLEDD CYMRU

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

1 OQ56341 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod busnesau yn Sir Benfro yn gallu cael mynediad at gymorth busnes yn ystod y pandemig?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

2 OQ56342 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y llifogydd diweddar ar y rhwydwaith cefnffyrdd?

**David Melding** *Canol De Cymru*

3 OQ56353 **(e)**

Pa fesurau sydd ar waith i gefnogi Maes Awyr Caerdydd pan ddaw'r cyfyngiadau symud i ben?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

4 OQ56345 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn ystod y pandemig?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ56348 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad busnesau yng ngogledd Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OQ56358 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi adferiad economaidd canol dinas Caerdydd yn sgil y pandemig?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

7 OQ56372 **(e)**

Pa gymorth economaidd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i ganol dinas Casnewydd yn ystod pandemig COVID-19?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OQ56361 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi datblygiad economaidd canol trefi ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ56371 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Sut y bydd Canolbarth a Gorllewin Cymru yn elwa o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad economaidd ar ôl COVID?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ56364 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu busnesau bach yng Ngorllewin De Cymru i adfer yn sgil pandemig y coronafeirws?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

11 OQ56352 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau yng Nghwm Cynon?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ56365 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu llwybrau yn ôl i waith i'r rhai sydd wedi colli cyflogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

## CWNSLER CYFFREDINOL A'R GWEINIDOG PONTIO EWROPEAIDD

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

1 OQ56362 **(e)**

Beth yw asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o effaith y cytundeb masnach a chydweithredu rhwng y UE a'r DU ar gymoedd de Cymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ56363 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gronfa ffyniant gyffredin Llywodraeth y DU?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

3 OQ56357 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r potensial i ddenu busnesau rhyngwladol i Gymru nawr bod y DU wedi gadael yr UE?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ56350 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael am leoliadau gwaith tymor byr i ddysgwyr o rannau eraill o Ewrop sy'n dod i Gymru ar ôl Brexit?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

5 OQ56359 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu hawliau cerddorion i weithio a theithio ar draws yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ56360 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch gallu pobl Cymru i astudio dramor ar ôl i'r DU ymadael â'r UE?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

7 OQ56354 **(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar draffig fferi drwy Borthladd Caergybi?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OQ56370 **(e)**

Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu'r gronfa ffyniant gyffredin?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ56368 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ddyfodol y diwydiant pysgod cregyn ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd?

**David Melding** *Canol De Cymru*

10

## OQ56356 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y mesurau a gymerwyd i hwyluso llif masnach Ewropeaidd i Gymru ac o Gymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11

## OQ56367 **(w)**

Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr awdurdod dyroddi unigol yn sgil ymadwiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd?